

BMC CYMRU



Y CYFARFOD NESAF AR 16 CHWEFROR AM 8.00 P.M.

Gallt y Glyn (Llanberis) - Pizza AM DDIM- Croeso i Bawb

Ar gyfer Dyddiadur 2010

- 16 Chwefror, BMC Cymru/Wales, Cyfarfod a phizza am ddim. Gallt y Glyn ger Llanberis, 8.00 pm.
- 5/6/7 Mawrth, Gŵyl Ffilmiau Llanberis (LLAMFF).
- 24 Ebrill, Gŵyl Tremadog.
- 8 Mehefin, Cyfarfod BMC Cymru/Wales, Gwesty Castell Deganwy, 9.00pm.
- 21 Medi, Cyfarfod BMC Cymru/Wales Y Faenol, Nant Peris, 8.00 pm.
- 4 Rhagfyr, BMC Cymru/Wales Diwrnod o Hwyl, Mynydda a Dringo, Plas y Brenin.

BMC Cymru/Wales Diwrnod o Hwyl 2009

Bydd pawb a fynychodd y diwrnod gwych hwn wedi derbyn eu nodiadau erbyn hyn, gobeithio.

Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus dros ben a chafwyd pedwar gweithdy am ddim gyda nifer o bobl yn bresennol. Cawsom bryd o fwyd rhagorol, cyfarfod blynyddol llwyddiannus iawn a Fforwm agored gyda dros 70 yn bresennol, gan gynnwys dau Is-lywydd BMC.

Yn y cyfarfod cafwyd sgwrs ddifyr iawn ar gadw'r rhostir mynydd sy'n parhau ar y Carneddau, ac yna cafwyd Birdman of the Karakorum, a'r Cwis en-

wog gyda chystadleuaeth lem a di-wobr unwaith eto. Edrychwn ymlaen at ddiwrnod cyffelyb ar 4 Rhagfyr 2010. Peidiwch â'i gollii!

Cronfa Boltiau Gogledd Cymru

Derbyniodd y gronfa gyfraniadau yn ystod y gaeaf. Cododd Waliau Dringo Gogledd Cymru dros £630 i'r gronfa bolttau drwy gyfrannu'r holl elw o'r Bouldering Aggregates – llawer o ddiolch i Gill a Steve yn y Beacon ac i John a'r bechgyn yn The Indi.

Rydym ninnau wedi casglu £122 yn y Diwrnod o Hwyl ym Mhlas y Brenin, ac wedi cyfrannu £100. Mae'n hawdd ichi

wneud cyfraniad yng nghyfarfod lleol yr BMC neu arlein yn [.<http://www.northwaleslimestone.wetpaint.com>](http://www.northwaleslimestone.wetpaint.com)

Yn ddiweddar, bu'r NWBF yn profi rhai bolltau a darganfod bod bollt Fixe sydd wedi'i osod yn gadarn yn methu ar gryfder rhyfeddol o 35 kN – nid oedd y resin yn dangos unrhyw arwydd o fethu.

Codi arian yn llwyddiannus ar gyfer Cronfa Folltau De Cymru

Cyn y Nadolig, fe ddangosodd Canolfan Ddringo Boulders, Caerdydd, y ffilm 'Asgard Project' i godi arian ar gyfer gosod bolltau newydd yn Ne Cymru yn lle'r hen rai. Diolch o galon i dimoedd Rob ac Olly yn Boulders am drefnu ac am redeg y digwyddiad hwn. Daeth torf fawr i fwynhau'r bwyd, oedd i'w gael am ddim diolch i BMC; diolch hefyd i'r gwneuthurwyr ffilmiau, Al Lee, am roi caniatâd inni ddangos y ffilm.

Gaeaf Rhyfeddol


Am gychwyn gwych i'r flwyddyn! Cafwyd tywydd gaeafol rhyfeddol ledled Cymru, llwyddwyd i wneud dringfeydd anarferol o'r Bannau i Eryri, a chafwyd amodau cerdded rhyfeddol ar draws y wlad. Roedd y cwbl yn freuddwyd i'r ffotograffydd.

Darllenwch yr adroddiad llawn yn rhifyn nesaf y cylchgrawn 'Dringo'. Ceir adroddiad ar lawer o ddigwyddiadau yn www.welshwinterclimbs.wetpaint.com ac www.baggy.blogspot.com. Mae DMM a Ground Up yn werth bwrw golwg arny'n nhw hefyd. Ond nid oedd popeth mor esmwyth. Gofynnwyd i ba rad-

dau roedd rhaid i'r tyfiant rewi i osgoi ei niweidio. Darllenwch erthygl Elfyn i gael yr hanes yn llawn.

Ydy hi'n iawn ceisio dringo creigiau yn y dull clasurol o dan amodau 'gaeafol'?- ac a ddylai awdurdodau'r parc cenedlaethol fod wedi gwneud ymdrech i glirio'r maes parcio ym Mhen y Pass yn lle'i gau ar ddechrau Ionawr Mae hyn i gyd yn agored i'w drafod yn ystod ein cyfarfod nesaf.

<http://www.thebmc.co.uk/Feature.aspx?id=3469>



Adroddiad Ymddiriedolaeth Treftadaeth y Mynyddoedd

I ddathlu cwblhau trosglwyddo'r archifau i gampws Amble-side, Prifysgol Cumbria, bu derbyniad ar y cyd ar y safle ar ddydd Mawrth 10 Tachwedd lle roedd nifer o bwysigion o fyd llywodraeth leol a thwristiaeth.

Mewn cyfarfod yr Ymddiriedolaeth yn ddiweddar, a gynhaliwyd yn y BMC ar 4 Rhagfyr, cytunwyd i estyn gwahoddiad i Richard Lemming, darlithydd mewn gweithgareddau awyr agored Prifysgol Cumbria, i ymuno fel ymddiriedolwr. Bydd y grant o'r Gronfa Loteri Treftadaeth yn dod i ben yn 2011 felly rhaid i'r MHT chwilio am ariannu gwahanol i ddilyn ymlaen.

Er bod yr ymddiriedolaeth yn edrych yn barhaol at ychwanegu eitemau at eu casgliad, mae diddordeb ganddynt mewn cofnodi ble mae

eitemau eraill yn cael eu cadw hefyd er mwyn eu hychwanegu at eu catalog.

K.C. Gordon

BMC Tudalennau Cymuned

Mae'r rhain yn gweithio erbyn hyn. Bydd y mwyafrif o ddyddiadau pwysig 2010 y BMC Cymru/Wales ar y calendr. Ceir newyddlen hefyd ar y tudalennau hyn a nodiadau ein cyfarfodydd. Ewch i

www.thebmc.co.uk

<<http://www.thebmc.co.uk>> a chlicio ar 'Cymru'.

Newyddion Penfro

Rydym wedi gosod 6 o stanciau newydd BMC yn Range West cyn y Nadolig. Maen nhw yn Linney Point (Impending Inlet), Bulliber a Keyhole Zawn (Diolch yn fawr iawn i Lynne Houlston ac i MoD). Gobeithio y gallwn roi rhai newydd yn lle'r hen rai ansicr yn Stackpole a Mowing Word y mis yma, ac ychydig yng Ngogledd Penfro (Rainbow Zawn, Narrow Zawn, Carreg y Barcud).

Steve Quinton

Rhifau ffôn ar gyfer adrodd ar ddefnyddio cerbydau oddi-ar-y ffordd yn anghyfreithiol

Gwnaed y rhan fwyaf o'r gwaith hwn yn 2009. Cofiwch mai ni yw llygad a chlust y brynau. Os gwelwch gerbydau oddi-ar-y ffordd yn gweithredu'n anghyfreithiol yng Nghymru galwch 08456061001 (lein Gymraeg) a 08456071002 (lein Saesneg).

Gŵyl Tremadog

Cynhelir Gŵyl Tremadog unwaith eto yn 2010. Amcan y penwythnos yw tynnu'r tyfiant diangen o'r llwybrau. Bydd

pawb a ddaw â llif, cylllell neu secatyrs yn ei law yn derbyn tocyn raffl am ddim; ac mae pawb yn ennill rhywbeth fel arfer.



Bydd sioe sleidiau am ddringo wal fawr am y tro cyntaf gan Gymry ifanc ym Malaysia, a bydd coelcerth. Y BMC sy'n talu am eich costau gwersylla neu fynchows a bydd cwrw am ddim. Rhowc y dyddiad yn eich dyddiadur ar gyfer 24 Ebrill.

Tocyn Tymor llwybr Y Gogarth

- Ar gael oddi wrth : Priffyrdd ac Isadeileddau, York Road (oddi ar Stryd Gloddaeth), Llan-dudno, LL30 2EF.

Cyfrannu at 'Summit'

Mae gan BMC Cymru/Wales ei dudalen ei hunan yn Summit. Croesawn unrhyw gynigion i gyfrannu at y dudalen hon. Rydym yn chwilio am ddarn byr tua 330 o eiriau ar fynydda neu ddringo yng Nghymru. Cysylltwch â ni yn bmccymruwales@live.co.uk i roi eich barn.

Cyfres Dringo Ieuencid BMC

Cynhelir y rownd gyntaf ar 30 Ionawr yn wal ddringo Indy, Llanfair PG. Bydd y rowndiau cymhwyso yn dilyn hyn ar 27 Chwefror yn y Ganolfan Ddringo Beacon, ger Waunfawr. Yn y rowndiau hyn fe benderfynir pwy sydd i gyn-

rychioli Ieuencid Gogledd Cymru yn y rownd derfynol yng Nghaerdydd. Rwy'n sicr bydd cystadleuaeth gryf. Daeth nifer fawr o bobl y llynedd, ac rwy'n sicr y bydd eleni yn fwy poblogaidd fyth.

Felly, rwy'n chwilio am wirfoddolwyr i roi help llaw ar y diwrnod. Dim angen profiad, tecstiwch fi ar 07811 634 714 ac fe gewch y job...

Mark Dicken

Hyfforddi Arweinwyr Mynydd Cymru

Cafwyd cyfarfod bywiog gyda nifer dda yn bresennol ym mis Tachwedd – dyma'r prif bynciau trafod a phynciau gweithredu:

- Mae gan yr Arolwg Ordnans drefn achwynion y gellir ei defnyddio i nodi unrhyw bryderon ynghylch arwyddion clogwyni ar y mapiau 1:25,000 Eryri a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Yr ymateb i gwynion diweddar yw nad oedd problem yn bodoli am eu bod wedi derbyn adborth gadarnhaol o leoedd eraill. Byddai sylw safonol yn gallu bod o gymorth i gyrrff eraill sy'n dymuno cysylltu â'r OS, gan sicrhau bod eu pryderon yn canolbwyntio ar y prif broblemau – anfonwch unrhyw sylwadau ar eglurder y nodweddion ar y map at Bryn Williams, Siabod Cottage.
- Darparwyr yn y Gymraeg – Dywedodd Dewi Evans bod cynnig wedi digwydd yn y nifer o siaradwyr y Gymraeg sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau D of E, ond nid oes digon o hyfforddwyr sy'n gallu darparu cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai perthynas gweithio glos gyda'r Bartneriaeth Awyr

Agored --Outdoor Partnership (OP)- yn fan da ar gyfer nodi hyfforddwyr dawnus yn y Gymraeg a fyddai'n gallu cydweithio gyda darparwyr cymeradwy ar gyrsiau ML a SPA i ennill profiad gwerthfawr a gwneud cais am fod yn ddarparwyr yn y dyfodol. Erbyn hyn, mae 10,000 o bobl wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau gydag OP.

- Bu trafodaeth ynghylch swyddogaeth yr MLTA yn y ddarpariaeth CPD.
- Etholwyd Andy Boorman (cynrychiolydd BMC Cymru/Wales) yn Is-gadeirydd MLTW.

Andy Boorman



Cwmp Creigiau Oxwich Bay

Bu cwmp creigiau pwysig ar y glogwyn chwaraeon yn Chwarel Bae Oxwich, Penrhyn Gwyr, sy'n effeithio ar nifer o lwybrau. Gofynnir i ddringwyr osgoi'r ardal nes bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru wedi archwilio'r safle a gwneud gwaith diogelu. Mae cynrychiolydd mynediad y BMC, Mark Winder, mewn cysylltiad â'r tîrfeddianwyr a warden lleol Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mwy o wybodaeth a lluniau ar <http://www.thebmc.co.uk/News.aspx?id=3459>

